

Lleygwyr ar waith

“Cafodd Philip ei hun yn Asotus, ac aeth o gwmpas dan gyhoeddi'r newydd da yn yr holl ddinasoedd nes iddo ddod i Gesarea.” (adn. 40)

Beth am ddarllen Actau 8:26–40 ac yna myfyrio

Yr ydym yn parhau i ystyried y gwirionedd fod yr eglwys yn Antiochia wedi ei sylfaenu gan leygwyr. Nid dweud yr ydym nad oes angen gweinidogaeth arbennig “apostolion, gweinidogion, proffwydi” ac yn y blaen ar yr Eglwys fel y gosodir hwy yn Effesiaid 4:11. Ond, yn hytrach, rydym am gydnabod fod dynion a gwragedd cyffredin, wedi eu hysbrydoli gan Ysbryd Duw, yn medru gwneud cyfraniad sylweddol i ddatblygiad yr Eglwys.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rwyf wedi dod i ystyried y term ‘gweinidogaeth leyg’ a ‘gweinidogaeth ordeiniedig’ fel rhai annerbyniol, gan eu bod yn creu'r gwahaniaeth sydd yn gyffredinol o ychydig gymorth i'r Eglwys. “Mae Cristnogaeth,” yn ôl un hanesydd, “yn gyffredinol yn fudiad lleyg.” Mae'n mynd ymlaen i nodi: “y bydd yn rhaid i'r Eglwys yn y dyfodol fod, yn bennaf, yn Eglwys leyg, gyda phobl leyg yn cymryd rhan flaenllaw, a'r rhai sydd wedi eu hordeinio yn hyfforddwy'r y tîm yn hytrach na'r rhai sydd yn chwarae, y rhai sydd yn arwain mudiad lleyg.” Rhaid i ni sydd yn weinidogion, yn efengylwyr, yn broffwydi neu yn athrawon, sylweddoli na fyddwn ni byth yn ennill y byd ar ben ein hunain. Does dim digon ohonom ni. A beth bynnag, ni fyddai o unrhyw fudd i'r Eglwys petai mwy o bobl ordeiniedig, oherwydd mi fyddai hyn yn amddifadu'r bobl leyg o'r datblygiad ysbrydol sydd yn dod wrth iddynt rannu eu ffydd.

Wrth imi weinidogaethu yn yr Affrig yn ddiweddar, dywedodd un o arweinwyr y Pabyddion wrthyf: “Y cyfan sydd i'w glywed o fewn yr Eglwys Gatholig y diwrnodau hyn yw'r sôn am y lleygwyr.” Ychwanegodd: “Mae hwn yn wahaniaeth sylweddol, oherwydd, hyd yn hyn, eiddo'r offeiriad oedd y weinidogaeth.” Rwy'n pwysleisio fod angen newidiadau mawr ym mhob rhan o'r Eglwys wrth i ni gychwyn ar ganrif newydd, ac un o'r newidiadau angenrheidiol yw ein perthynas â'r lleygwyr yn ein plith.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Ex. 17:8–13; 35:4–36:7

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth oedd dull Moses o weinidogaethu?
2. Sut bu i'r tîm ymateb?

Gweddï O Dduw trugarog, cynorthwya ni i ennill pobl i dy deyrnas di yn y dyfodol trwy ennill ein lleygwyr ein hunain. Yr ydym yn ymwybodol o'r potensial sydd o fewn ein heglwysi. Caniatâ i ni ryddhau'r potensial hwnnw. Yn enw Iesu. Amen.